

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â helpu unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas gadarnhaol ag eraill. Mae hyn yn cynnwys annog perthynas effeithiol ag eraill a mynd i'r afael ag unrhyw densiynau sy'n codi.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. hwyluso perthynas rhwng unigolion trwy gymryd camau sy'n deg, ac sy'n cydbwysu eu hanghenion
2. helpu unigolion i drin eraill â pharch, gan gynnwys parchu eu gwerthoedd a'u credoau diwylliannol, ac eiddo pobl eraill
3. creu cyfleoedd i unigolion ddysgu o'u hymddygiad yng nghyd-destun magu a datblygu perthynas ag eraill
4. cynorthwyo unigolion i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad a'u perthnasoedd ac i ymuno mewn gweithgareddau a thasgau
5. annog cysylltiadau cadarnhaol ag eraill a all helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol unigolion
6. hyrwyddo agweddau da ar berthynas ag eraill i unigolion mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion
7. cael a defnyddio gwybodaeth am berthnasoedd trwy drafodaethau, arsylwi a ffynonellau addas eraill
8. helpu unigolion i nodi unrhyw anawsterau a allai fod ganddynt wrth fagu a chynnal perthynas ag eraill a rhoi cymorth priodol
9. trafod ymddygiad amhriodol gydag unigolion a'u cefnogi i wella eu hymddygiad
10. cyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynlluniau wrth gefn i ddelio ag argyfyngau a sefyllfaoedd gwrthdaro posibl
11. cynnal cyfathrebu effeithiol â chydweithwyr perthnasol a rhanddeiliaid eraill i helpu unigolion i ddatrys problemau wrth ddatblygu a chynnal perthynas

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. deddfwriaeth berthnasol a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol sy'n berthnasol i'ch sefydliad eich hun ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud
2. egwyddorion a phrosesau cyfathrebu effeithiol a sut i'w cymhwyso
3. pwysigrwydd cefnogi ac annog unigolion i fynegi eu hanghenion a'u teimladau a sut i wneud hyn
4. sut i gadarnhau bod eich camau a'ch ymddygiad eich hun yn gyson ag arferion gwrth-wahaniaethol
5. pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion o hyd
6. at bwy i gyfeirio pan fydd problemau, ceisiadau ac anghenion unigolion y tu hwnt i'ch maes cymhwysedd a chyfrifoldeb
7. y rhesymau pam na ellir mynd i'r afael â rhai problemau a cheisiadau penodol o fewn eich sefydliad
8. egwyddorion a safonau cyfrinachedd a sut i'w cymhwyso yn eich rôl
9. pwysigrwydd annog unigolion i ddatblygu a chynnal perthynas gadarnhaol ag eraill a sut i wneud hyn
10. yr ystod o broblemau y gall unigolion gael yn eu perthnasoedd,
11. gan gynnwys y rhai canlynol:
 - ynysu ac allgáu
 - gwrthdaro
 - bwlio a cham-drin cudd ac amlwg
12. cymorth y gallai fod ei angen ar unigolion a sut y gellir cynnig hyn
13. sut i gynnig cymorth priodol mewn ffyrdd sy'n cynnal urddas yr unigolyn
14. pwysigrwydd cadw at godau proffesiynol neu safonau ymarfer

15.pwysigrwydd annog unigolion i gynnal eu diddordeb mewn ardaloedd y tu allan i'w hamgylchedd agos a sut i wneud hyn

16.ffiniau eich rôl a'ch cyfrifoldebau

Helpu unigolion i ddatblygu perthynas ag eraill

Datblygwyd gan	Skills for Justice
Fersiwn rhif	3
Dyddiad cymeradwyo	31 Maw 2025
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2030
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Justice
RCU gwreiddiol	SFJGI3
Galwedigaethau perthnasol	Swyddog Tîm Troseddwr Ifanc, Swyddog Cyfiawnder Ieuencid, Rheolwr Cyfiawnder Ieuencid, Gweithiwr Tîm Troseddwr Ifanc, Ymarferydd Cyfiawnder Ieuencid, Rheolwr Tîm Troseddwr Ifanc
Cyfres/Set	Cyfiawnder Ieuencid, Ailsefydlu Troseddwr
Geiriau Allweddol	Datblygu perthnasoedd; byw gydag eraill; tensiynau; sgiliau cymdeithasol